Estyn
Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad
# Lefel y dilyniant: Monitro gan Estyn

**Cwmni Hyfforddiant Cambrian**
**Y Swyddfa @ Coed y Dinas**
**Y Trallwng**
**SY21 8RP**

**Dyddiad yr ymweliad: Medi 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Mark Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Bernard O'Reilly | Arolygydd Tîm |
| Sandra Barnard | Arolygydd Tîm |
| Steve Bell | Arolygydd Tîm |
| Anne Jones | Cynrychiolydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

### Canlyniad yr ymweliad monitro

Bernir bod Cwmni Hyfforddiant Cambrian wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Mawrth 2012.

O ganlyniad, bydd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu Cwmni Hyfforddiant Cambrian oddi ar y rhestr o ddarparwyr y mae angen iddynt gael eu monitro gan Estyn. Fodd bynnag, bydd Estyn yn parhau i fonitro rhaglen wella'r darparwr trwy ymweliadau monitro gan yr arolygydd cyswllt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Datblygu a gweithredu strategaeth glir i ddatblygu medrau sylfaenol a medrau llythrennedd pob dysgwr

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr arolygiad yn 2012, mae'r darparwr wedi cyflwyno neu wella ystod dda o bolisïau a gweithdrefnau i wella medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys arweiniad ar gyfer marcio gwaith ysgrifenedig, arweiniad ar sut i gofnodi adborth adeiladol ar waith sy'n cael ei storio ar bortffolios electronig ac arweiniad cynhwysfawr i staff ynghylch pa mor effeithiol i gynorthwyo dysgwyr i wella'u medrau llythrennedd. Fodd bynnag, er bod y dogfennau hyn yn cyfrannu at ddull mwy systematig o ddatblygu medrau llythrennedd dysgwyr, nid ydynt yn ffurfio strategaeth gydlynus ar hyn o bryd, sy'n nodi'n glir nodau a disgwyliadau ar gyfer yr holl staff a'r dysgwyr.

Cyflwynodd y darparwr gynllun marcio llythrennedd yn ystod Ebrill 2013. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei ddefnyddio'n gyson ar draws yr holl feysydd dysgu eto ac mae ansawdd a maint yr adborth ysgrifenedig i ddysgwyr yn rhy amrywiol.

Cryfhawyd y tîm medrau hanfodol ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r darparwr wedi herio'i swyddogion hyfforddi i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd eu hunain. O ganlyniad, mae llawer o swyddogion hyfforddi wedi datblygu eu medrau llythrennedd ac yn defnyddio strategaethau gwell wrth roi cymorth llythrennedd i ddysgwyr. Mae pob un o'r dysgwyr yn cael asesiad cychwynnol ar gyfer llythrennedd a rhifedd pan fyddant yn dechrau eu rhaglen hyfforddi. Cynigir asesiad diagnostig manylach i ddysgwyr y mae eu hasesiad cychwynnol yn dangos eu bod islaw Lefel 1. Cynigir cyfle i'r dysgwyr hyn fynychu gweithdai medrau hanfodol sy'n cael eu staffio gan arbenigwyr o'r tîm medrau hanfodol. Mae dysgwyr sy'n mynychu'r gweithdai hyn yn elwa ar lefelau da o gymorth sy'n eu helpu i ddatblygu eu medrau hanfodol.

Caiff dysgwyr y mae eu hasesiad cychwynnol uwchlaw'r lefel sy'n ofynnol ar gyfer eu fframwaith eu hannog i ddilyn medr hanfodol lefel uwch. Mae nifer y dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru sy'n uwch na gofyniad eu fframwaith wedi cynyddu ychydig bach ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r darparwr wedi gwneud cynnydd da wrth ddatblygu a defnyddio aseiniadau ar gyfer Sgiliau Hanfodol Cymru.

Fodd bynnag, nid yw rhai swyddogion hyfforddi'n manteisio digon ar gyfleoedd sy'n digwydd yn naturiol i ddatblygu medrau hanfodol dysgwyr yn y gweithle.

**Argymhelliad 2: Gwella ansawdd a chysondeb yr asesu a'r dysgu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Ers yr arolygiad, mae'r darparwr wedi gweithredu a chryfhau ystod eang o strategaethau i wella ansawdd a chysondeb addysgu, asesu a dysgu. Mae penaethiaid uned fusnes ar gyfer pob maes cwricwlwm yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod amrywiaeth eang o destunau, fel safoni asesu ac ansawdd cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi.

Mae pob un o'r staff wedi cymryd rhan mewn diwrnod datblygiad proffesiynol achrededig "Rhagoriaeth mewn Dysgu". Mae hyn wedi eu helpu i baratoi a chynllunio sesiynau hyfforddi ac addysgu effeithiol. Mae staff hyfforddi ac addysgu wedi gwella'u technegau holi, ac maent yn cydnabod gwahanol arddulliau dysgu erbyn hyn ac yn addasu adnoddau a dulliau cyflwyno fel eu bod yn fwy addas ar gyfer anghenion dysgwyr.

Mae'r darparwr wedi cynllunio a gweithredu cynllun gwaith a dogfennaeth cynlluniau gwersi safonedig ar draws holl feysydd y cwricwlwm yn y sefydliad ac ar draws y ddarpariaeth sydd wedi'i his-gontractio. Mae hyn wedi gwella cysondeb y sesiynau asesu ac addysgu, ac wedi rhoi mwy o hyder i staff wrth eu cyflwyno.

Mae'r darparwr wedi rhoi system arsylwi cymheiriaid newydd ar waith ar gyfer eu holl swyddogion hyfforddi a staff hyfforddi ac aseswyr isgontractwyr. Mae'r arsylwadau hyn yn seiliedig ar feini prawf barnau Estyn a chanfyddiadau'r gwiriwr allanol. Mae defnydd rheolwyr o'r system arsylwi hon wedi arwain at fynd i'r afael yn gyflym â chamau gwella a nodi a rhannu arfer orau yn effeithiol.

Caiff pob dysgwr adborth ffurfiol adeiladol ar ôl tasgau asesu. Mae gan y darparwr system olrhain gynhwysfawr yn ei lle ac mae dysgwyr yn gwybod pa mor dda y maent yn gwneud cynnydd tuag at eu cymhwyster.

**Argymhelliad 3: Gwneud yn siŵr bod rheolwyr yn troi amcanion strategol y darparwr yn weithgareddau gweithredol effeithiol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r darparwr wedi gwneud cynnydd da o ran sicrhau bod ei amcanion strategol yn cael effaith gadarnhaol ar ei weithgareddau gweithredol.

Mae'r darparwr wedi addasu ei strwythur rheoli ac mae hyn wedi gwella atebolrwydd, cyfrifoldeb ac effeithiolrwydd rheolwyr a staff ar draws y sefydliad. Caiff y Cyfarwyddwr Medrau ei gefnogi'n dda gan Gyfarwyddwr Gweithrediadau a Phenaethiaid Unedau Busnes. Mae'r rheolwyr hyn yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i wneud yn siŵr bod amcanion strategol allweddol y darparwr yn cael eu bodloni. Mae gan y darparwr ffocws craff ar faterion allweddol, fel monitro ac olrhain cynnydd dysgwyr a datblygiad swyddogion hyfforddi.

Mae cyfathrebu rhwng rheolwyr a staff yn effeithiol. Mae ystod briodol o gyfarfodydd yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu ac arfer orau'n cael ei nodi. Mae rheolwyr ar draws y darparwr yn casglu ac yn gwneud defnydd effeithiol o ystod gynhwysfawr o ddata a gwybodaeth i fonitro'u perfformiad yn erbyn targedau ac yn meincnodi eu perfformiad yn erbyn darparwyr eraill dysgu yn y gwaith. Mae rheolwyr yn rhannu'r wybodaeth hon gyda swyddogion hyfforddi ac isgontractwyr yn dda yn ystod cyfarfodydd tîm ac un i un rheolaidd.

Mae swyddogion hyfforddi'n defnyddio safle mewnrwyd y darparwr yn effeithiol i adolygu adroddiadau cynnydd dysgwyr a monitro tueddiadau mewn perfformiad. Mae'r darparwr wedi datblygu a gweithredu strategaeth gynhwysfawr ar gyfer ymglymiad dysgwyr. Mae'r strategaeth hon yn casglu safbwyntiau a barn dysgwyr, cyflogwyr a staff hyfforddi yn systematig. Defnyddiant y wybodaeth o'r arolygon hyn yn dda i lywio hunanasesu a chynllunio gwella ansawdd.

**Argymhelliad 4: Gwella rheoli gweithio mewn partneriaeth ag isgontractwyr**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ffordd y mae'r darparwr yn rheoli ei isgontractwyr wedi gwella'n sylweddol.

Mae'r darparwr wedi gwella'r ffordd y mae'n rheoli ei isgontractwyr trwy wneud yn siŵr bod gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn cael eu defnyddio a'u monitro'n rheolaidd ar draws darpariaeth wedi'i his-gontractio. Caiff y ffocws craffach hwn ei oruchwylio gan gyfarwyddwr gweithrediadau a benodwyd yn eithaf diweddar sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am reoli isgontractwyr.

Mae'r darparwr yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â'i dri is-gontractwr sy'n cymryd rhan yn llawn yn ystod lawn gweithgareddau strategol a gweithredol y darparwr. Mae hyn yn cynnwys rhannu arfer orau, defnyddio polisïau a gweithdrefnau safonedig, hyfforddi a datblygu staff ar y cyd, a datblygu a rhannu gwybodaeth a data perfformiad yn dda. Fel rhan o'i strategaeth i wella'r ffordd y mae'n rheoli isgontractwyr, mae'r darparwr yn cynnal arsylwadau cymheiriaid rheolaidd. Mae dau uwch reolwr yn ymweld â phob un o isgontractwyr y darparwr yn rheolaidd i sicrhau ansawdd a chysondeb yr addysgu a'r dysgu.

Mae'r bartneriaeth gyda phrif is-gontractwr y darparwr wedi arwain at ystod ehangach o gyfleoedd hyfforddi ar gyfer dysgwyr, gan gynnwys cyflwyno prentisiaethau lefel uwch. Mae cyswllt dyddiol rheolaidd rhwng y darparwr a'i isgontractwyr i adolygu cynnydd dysgwyr a datblygiadau presennol. Mae'r darparwr yn cynnal cyfarfodydd misol gyda'i benaethiaid unedau busnes a'i isgontractwyr. Mae'r cyfarfodydd hyn yn effeithiol o ran rhannu gweledigaeth y cwmni, gosod targedau perfformiad a rhannu ystod eang o wybodaeth.

**Argymhelliad 5: Sicrhau bod yr holl brosesau ansawdd yn cael eu cwblhau'n gywir ac yn llawn a'u monitro'n drylwyr gan reolwyr**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r darparwr wedi cryfhau ei systemau ac arferion ansawdd yn sylweddol. Caiff dogfennaeth a gwybodaeth eu rhannu'n dda ar draws rheolwyr, staff ac isgontractwyr. Mae rheolwyr yn adolygu perfformiad dysgwyr a swyddogion hyfforddi yn rheolaidd yn erbyn ystod gynhwysfawr o ddangosyddion perfformiad allweddol (DPA).

Mae rheolwyr yn cydweithio'n dda ac yn rhannu gwybodaeth yn ymwneud â pherfformiad dysgwyr. Mae'r gwaith tîm cryf hwn a rhannu gwybodaeth wedi arwain at gysondeb llawer gwell yn ansawdd dogfennaeth a gofnodir ar draws y darparwr. Mae rheolwyr yn cael diweddariadau rheolaidd ar berfformiad grwpiau o ddysgwyr. Defnyddiant y wybodaeth a'r data hyn yn dda i nodi dysgwyr sydd mewn perygl o beidio â chwblhau eu hyfforddiant o fewn y raddfa amser a roddwyd ac i osod targedau diwygiedig ar gyfer cyrhaeddiad dysgwyr. Mae'r darparwr yn defnyddio data meincnodi perfformiad yn dda, yn enwedig i adolygu a monitro'i berfformiad yn ei feysydd arbenigedd.

Cryfhawyd system y darparwr ar gyfer arsylwi swyddogion hyfforddi wrth gyflwyno theori, gwaith ymarferol ac asesiadau ac fe'i defnyddir yn gyson erbyn hyn. Mae'r cyfarwyddwr medrau a phennaeth yr uned fusnes yn cynnal yr holl arsylwadau ffurfiol sy'n bwydo i broses perfformiad staff y darparwr. Bernir yr arsylwadau hyn gan ddefnyddio graddfa Estyn ac fe gânt eu safoni o ran cysondeb gan y ddau reolwr.

Mae gan y darparwr fwy o ffocws ar ansawdd y gweithgareddau addysgu a dysgu. Mae wedi buddsoddi mewn cefnogi swyddogion hyfforddi i ddatblygu eu medrau a'u gwybodaeth am fedrau llythrennedd hanfodol, ADCDFE ac arddulliau dysgu.

Mae'r darparwr yn defnyddio ystod gynhwysfawr o arolygon a holiaduron i ofyn am safbwyntiau dysgwyr a chyflogwyr ynglŷn ag ansawdd hyfforddiant.

**Argymhelliad 6: Gwneud mwy i hyrwyddo ac ymgorffori iaith a diwylliant Cymru ac ADCDFE ymhlith pob dysgwr**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae gan y darparwr ffocws cryf iawn ar y maes hwn o'i waith ac mae wedi gwneud gwelliannau sylweddol i hyrwyddo ac ymgorffori iaith a diwylliant Cymru ac ADCDFE ar draws yr holl feysydd dysgu.

Mae gan aelod o staff y darparwr rôl hyrwyddwr dwyieithog. Mae'r hyrwyddwr dwyieithog yn cydlynu ac yn cefnogi staff hyfforddi i hyrwyddo dwyieithrwydd yn dda ar draws y darparwr a'i isgontractwyr. Mae pob un o'r dysgwyr a'r staff wedi cwblhau asesiadau bach sy'n arwain at gymhwyster ardystiedig sy'n cynnwys y Gymraeg mewn Cymdeithas ddwyieithog a Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang.

Mae'r darparwr wedi datblygu ystod dda o adnoddau gyda phwyslais clir ar greu ethos dwyieithog cryf. Mae swyddogion hyfforddi sy'n gweithio gyda dysgwyr y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt yn eu hannog i gwblhau eu gwaith ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae nifer y dysgwyr sy'n cwblhau gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg wedi cynyddu ac mae dysgwyr yn dangos brwdfrydedd cynyddol i gwblhau gwaith yn Gymraeg. Mae'r darparwr yn cynnig gwasanaeth cyfieithu Saesneg i Gymraeg i bob dysgwr. Mae hyn yn eu helpu â dylunio bwydlen ddwyieithog, cyfieithu seigiau bwyty a geirfa termau mewn lletygarwch, cynhyrchu bwyd, a manwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid.

Mae staff hyfforddi ac addysgu yn gwneud yn siŵr bod enghreifftiau o ADCDFE a diwylliant Cymru yn cael eu hintegreiddio'n llawn mewn cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi. Mewn sesiynau a addysgir, mae staff hyfforddi yn trafod enghreifftiau realistig o gynaliadwyedd a'r iaith Gymraeg a'i diwylliant, er enghraifft, technegau prynu a choginio mwy effeithlon, gwastraff bwyd mewn gwestai, a'r anawsterau wrth gyfieithu termau coginio o Saesneg i Gymraeg.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal a gwella ar y cynnydd hwn, dylai'r darparwr barhau i weithio tuag at fodloni argymhellion yr arolygiad nad aethpwyd i'r afael â nhw yn llawn eto.